



Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO



NEGES I BENAETHIAID



Wrth i dymor y Nadolig agosáu, hoffem fanteisio ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi, eich staff a chymuned eich ysgol.

Heb os nac oni bai, mae eleni wedi bod yn flwyddyn heriol, a gwerthfawrogn yn arw iawn eich ymroddiad, eich gwytnwch a'ch arweinyddiaeth gadarn wrth gefnogi disgyblion, staff a chymunedau ehangach. Mae eich ymrwymiad i addysg a lles y rheiny sydd o dan eich gofal yn parhau i ysbrydoli a gwneud gwahaniaeth arwyddocaol.

Wrth i ni baratoi am yr adeg arbennig yma o'r flwyddyn, byddwn yn eich annog i gymryd egwyl gyda'ch teulu a'ch anwyliaid. Mae'n gyfle gwerthfawr i orffwys a chymryd seibiant haeddiannol fel paratoad ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Nadolig yma yn un arwyddocaol iawn i GwE, gan y bydd y Nadolig olaf i ni fel Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol. Wrth i ni agosáu at y cyfnod trosglwyddo, hoffem ddiolch yn ddiffuant iawn i chi am yr ymddiriedaeth, y cydweithio a'r gefnogaeth dros y blynyddoedd.

Ar ran pawb yn GwE, diolch o waelod calon am eich cyfraniadau a'ch cyfeillgarwch, nid yn unig dros y flwyddyn ddiwethaf, ond ar hyd y daith gyda'n gilydd fel gwasanaeth rhanbarthol.

Yn gywir,

Euros Davies a Rhys Williams

Euros Davies - Pennaeth Gwasanaeth - Gwella Ysgolion | Rhys Williams - Pennaeth Gwasanaeth - Dysgu Proffesiynol



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



[Canolfan Cefnogaeth GwE](#)



[@GwEGogleddCymru](#)



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



[Cynnig Proffesiynol GwE](#)



[Bwletin GwE](#)

Eventbrite


CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL GwE
**CLICIWCH
YMA**

CYNHADLEDDAU GwE

Diwrnod Datblygu CALU


22/01/2025 | 9:15–15:15

VENUE CYMRU, LLANDUDNO

[COFRESTRU](#)

Cynhelir Diwrnod Datblygu CALU Cenedlaethol ar 22/01/2025 i gymorthyddion addysgu sydd â statws CALU. Dyma gyfle gwych i weld esiamplau o arfer effeithiol mewn ysgolion ar draws rhanbarth GwE.

SIARADWR GWADD: HYWEL ROBERTS

Pur anaml y dewch chi ar draws rhywun fel Hywel sy'n gallu adrodd straeon a wnaiff i chi chwerthin a chrio, yn aml ar yr un pryd! Cawn glywed am ei brofiad o fod ym mhob math o ddosbarthiadau gyda phob math o blant ynghyd â'i ddealltwriaeth academaidd o ymroddiad, cymhelliant, dysgu ac addysgu.

Mae'n dangos sut i ddod â'r dysgu yn fyw, hyd yn oed i'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi dadurthio fwyaf.



Yn ôl Hywel, mae'r athrawon gorau yn y byd wirioneddol yn malio! 'Botheredness' mae'n galw hyn, sy'n air gwneud mae'n cyfaddef.


NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Gweithdai ar gyfer ymarferwyr Meithrin/Derbyn ac ymarferwyr blynyddoedd 1, 2 a 3

GWEITHDY UNDYDD: 9:15 -15:30 | ** NI DDARPERIR CINIO**

CYNLLUNIO CYFLEOEDD PWRPASOL I DDISGYBLION DDATBLYGU SGILIAU LLYTHRENNEDD MEWN SEFYLLFAOEDD BYWYD GO IAWN, GAN DDEFNYDDIO TECHNOLEG DDIGIDOL YN EFFEITHIOL I GYFOETHOGI'R DYSGU

Addas ar gyfer: athrawon, cymorthyddion a chydlynwyr Iaith a Llythrennedd

Disgrifiad/ Deilliannau:

- Datblygu dealltwriaeth bellach o gynllunio effeithiol i sicrhau cynnydd wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a digidol disgyblion.
- Datblygu dealltwriaeth bellach o arferion effeithiol gan rannu enghreifftiau o brofiadau dysgu y gellir eu darparu mewn ysgolion.


**DYDDIADAU A CHOFRESTRU:
MEITHRIN / DERBYN**

**DYDDIADAU A CHOFRESTRU:
BLYNYDDOEDD 1, 2 A 3**

Sgiliau Disgyblaethol – Ffocws MDaPh: Ysgolion Uwchradd

CYD-WEITHWYR UWCHRADD: Angen cymorth i adnabod cyfleoedd trawsgwricwlaidd cyfoethog yn eich Maes Dysgu a Phrofiad?

Disgrifiad/ Deilliannau:

- Helpu'r MDaPh i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn eu disgyblaeth mewn ffordd ddilys.
- Datblygu dealltwriaeth arweinwyr canol ac ymarferwyr dosbarth o sut mae sgiliau llafaredd a darllen, rhifedd a digidol yn rhan annatod o lwyddiant disgyblion wrth wneud cynnydd yn eu disgyblaeth.
- Rhoi cyfle i ymarferwyr weithio efo YCG pwnc a sgiliau, a rhwydweithio efo arbenigwyr pwnc tebyg.


[Manylion llawn a chofrestru ar gael yma.](#)

Hyfforddiant Meddwl Cyfrifiadurol a Codio – Canolradd

Mae'r rhaglen hon yn addas ar gyfer ymarferwyr sy'n addysgu dysgwyr 8-11 ac yn hyderus wrth ymdrin â elfennau sylfaenol o feddwl cyfrifiadurol a chodio. Bydd y sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygu rhai o gysyniadau mwy cymhleth sy'n ymwneud â meddwl cyfrifiadurol a chodio yng nghanam cynnydd 3, sef:

- Defnyddio datganiadau amodol er mwyn ehanghu'r gwaith a chreu algorithmau mwy soffistigedig.
- Defnyddio synwryddion er mwyn synhwyro ac ymateb i ddata.
- Creu a rheoli newidynnau i bwrpas [cam cynnydd 3 a 4].

[Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle.](#)



ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO [ANG]

Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol ANG: Tymor 2 [2025]

Gellir cael mynediad i'r sesiynau byw isod drwy gofrestru ar [Eventbrite](#)

SESIWN	HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD	DARPARWYR	CYFRWNG
1	Asesu Ffurfiannol	16/01/2025	Clwb Rygbi, Caernarfon	Gwenno Jones	CYMRAEG
2	Formative Assessment	17/01/2025	Business Centre, Conwy	Gwenno Jones	ENGLISH
3	Challenging Behaviour	11/02/2025	Prifysgol Wrecsam	Gavin Cass	ENGLISH
4	Ymddygiad Heriol	13/02/2025	Clwb Rygbi, Caernarfon	Gwyn Owen / Ieuan Jones	CYMRAEG
5	Digital Competence	11/03/2025	Business Centre, Conwy	Hywel Roberts	ENGLISH
6	Cymhwysedd Digidol	12/03/2025	Clwb Rygbi, Caernarfon	Gwion Clarke	CYMRAEG



PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

Ymchwil ar addysg drochi a phrofiadau athrawon o addysg iaith leiafrifol

YMCHWIL GAN BRIFYSGOL BANGOR

Ydych chi'n addysgu plant o deuluoedd di-Gymraeg eu hiaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith?

Mae Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil ar addysg drochi a phrofiadau athrawon o addysg iaith leiafrifol.

[Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.](#)

Ydy eich clwstwr yn chwilio am ffyrdd i wella sgiliau darllen a sillafu dysgwyr?

RYDYM YN AWYDDUS I GLYWED GAN GLYSTYRAU AC/NEU YSGOLION SYDD Â DIDDORDEB MEWN PEILOTA RHAGLEN DATBLYGIAD PROFFESIYNOL WEDI'I LLYWIO GAN DYSTIOLAETH AR GYFER ADDYSGU LLYTHRENNEDD - GYDA PHRIFYSGOL EFROG, PRIFYSGOL BANGOR, A GWE.

Mae prosiect DEMSRI yn ymestyn ar brosiect llwyddiannus cynharach, sef DEMSI, a welodd fod 4 diwrnod o DPP i athrawon yn arwain at gynnydd addysgol sylweddol [rhwng 9 a 13%] mewn sillafu a darllen ar draws dosbarthiadau. Yn y prosiect hwn, rydym yn ceisio cefnogi athrawon i ddatblygu a defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt [yn seiliedig ar dystiolaeth] am ddysgu darllen a sillafu i blant ym Mlynedd 2 a 3. Ein gobaith yw gweithio gyda hyd at 40 ysgol rhwng mis Ionawr a Mawrth 2025 i werthuso cwrs DPP dros dridiau i athrawon dosbarth. Mae gennym ddiddordeb arbennig clywed gan ysgolion mewn clwstwr a allai fod â diddordeb mewn gweithio gyda ni. Cewch fwy o wybodaeth am [brosiect DEMSRI yma](#). Cysylltwch â richardwatkins@gwegogledd.cymru i fynegi diddordeb.

Cyhoeddiad newydd gan GwE ar y cyd â Phrifysgol Bangor:

"Where Are the Costs? Using an Economic Analysis of Educational Interventions Approach to Improve the Evaluation of a Regional School Improvement Programme"

Mae'n bleser gan GwE weld bod gwerthusiad hirdymor prosiect asesu ffurfiannol Shirley Clarke wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar yn y cyfnodolyn 'Education Sciences'. Dr Emma Tiesteel o Brifysgol Bangor wnaeth y gwaith hwn, a hynny'n rhan o waith parhaus GwE i wella'r defnydd sy'n cael ei wneud o waith ymchwil i lywio polisiâu ac arferion. [Claciwch yma am ragor o fanylion.](#)

A yw eich ysgol yn ceisio helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref?

YDYCH CHI'N CREDU BOD GAN EICH YSGOL RIENI/GOFALWYR DISGYBLION YM MLINYDDOEDD 3, 4, 5, A/NEU 6 A ALLAI DREIALU SUT Y GELLIR DEFNYDDIO EIN CYFRES O ADNODDAU DATBLYGU RHUGLDER RHIFEDD SAFMEDS GARTREF?

Os felly, yn nhymor y Gwanwyn 2025, byddwn yn cynnig cyflwyniad i'r deunyddiau i rieni sydd â diddordeb ac yn dangos iddynt sut y gallant helpu eu plentyn gartref. [Claciwch yma am fwy o wybodaeth.](#)



Y GYMRAEG

Y Gymraeg – Cynllunio'n Strategol: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth

Mae cyrsiau penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig yn drawsranbarthol yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn [Sesiwn bore dros Teams].

Mae posib cofrestru drwy ddefnyddio'r dolenni hyn:

[Ysgolion cyfrwng Saesneg - 22/01/2025](#)

[Ysgolion cyfrwng Cymraeg - 23/01/2025](#)



Cwrs Dysgu Cymraeg hunan astudio ar-lein Lefel Mynediad

WEDI'I DEILWRA'N ARBENNIG AR GYFER CYMORTHYDDION DYSGU SYLFAEN

[Manylion llawn a QR i gofrestru yma.](#)





DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:

[CYNRADD](#) | [UWCHRADD](#)

SECTOR CYNRADD

Gwreiddio Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd

DIWRNOD HYFFORDDIANT DYSGU PROFFESIYNOL GYDA RICHARD TALLARON, POWER LANGUAGE

27/01/2025 | 9:15-15:30 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

Mae diwrnod arall wedi'i gynllunio ar y cyd rhwng ein tîm Dyfodol Byd-eang a'n partneriaid yn Power Language, a'r bwriad yw rhoi mwy o syniadau ymarferol i athrawon ysgolion cynradd allu gwreiddio ieithoedd yn effeithiol yn eu cwricwlwm. Cofrestrwch [yma](#).



SECTOR UWCHRADD

Addysgu ieithoedd yn llwyddiannus i ddysgwyr â chyrhaeddiad isel blaenorol a dysgwyr ag AAAA - Siaradwr gwadd: Wendy Adeniji *

Sesiwn Dysgu Proffesiynol | [Ar-lein](#) | **13/01/2025** | **15.45-17.00** | [Manylion llawn a chofrestru yma](#).

Dylai pob dysgwr gael mynediad at gwricwlwm eang ac uchelgeisiol ac ni ddylid tynnu'r un disgybl o ITM. Gall dysgwyr â chyrhaeddiad isel blaenorol a dysgwyr ag AAAA lwyddo os cynllunnir y cwricwlwm yn ofalus iawn, gyda'r llwyth gwybyddol a'r ymarfer adalw priodol. Dewch i ddysgu sut i gynllunio cwricwlwm a sicrhau dilyniant i ddysgwyr â chyrhaeddiad isel blaenorol, cwricwlwm a fydd yn eu cymell a'u helpu i lwyddo.

Cofrestrwch [yma](#) erbyn 08/01/2025

*Mae Wendy Adeniji yn ymgynghorydd ITM, yn hyfforddwr, yn awdur adnoddau dysgu iaith a bu'n bennaeth dwy ysgol. Bu'n arolygydd gydag Ofsted ac mae ganddi brofiad helaeth ym maes addysg ITM. Mae wedi bod yn gweithio'n agos efo ni ers dwy flynedd ac, yn garedig iawn, mae wedi cynnig cyflwyno'r sesiwn hon i'n rhwydwaith ni yma yn GwE.



SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD

Almaeneg: Cynnig Goethe Institute

Adnoddau addysgu, cyfleoedd dysgu proffesiynol a digwyddiadau unigryw i ddysgwyr.

Manylion gan Goethe yn Saesneg yn unig [yma](#).

CODI PROFFIL IEITHOEDD A PHROFIADAU DYSGU

Cystadleuaeth Fideo Cerddoriaeth Bop Ffrangeg Institut Français 2025

Llwyfan chwareus a chreadigol i'ch myfyrwyr [7 i 18 oed] ddangos eu gwybodaeth am Ffrangeg.

Dysgwch fwy am y gystadleuaeth [yma](#). [Manylion yn Saesneg]. Cofrestrwch [yma](#) erbyn **16/03/2025**.

CA5 Ffrangeg- The Joutes oratoires 2024-2025 Institut français

Ydych chi'n dysgu Ffrangeg i ddisgyblion chweched dosbarth ac am gymryd rhan mewn menter newydd i'w gwneud nhw'n fwy hyderus? Rhewch gynnig ar y gystadleuaeth. Yr holl wybodaeth a chofrestru [yma](#)

Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes Blwyddyn 10 yn Ysgol Aberconwy

03/02/2025: Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 10 gymryd rhan mewn diwrnod menter difyr a chyffrous.Gwybodaeth llawn a chofrestru [yma](#)



NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU



[Cliciwch yma](#) i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol i holl staff Cymru.

Athrawon Newydd Gymhwyso [ANG]

Dilynwch y [ddolen hon](#) i weld clipiau fideo o 'Sesiwn 1: Cyfarwyddyd Cenedlaethol gan Dîm Sefydlu ANG y Consortia' a 'Sesiwn 1: Trosolwg o'r Proffil Sefydlu gan y CGA'. Cewch yno hefyd [ddolen i gofrestru](#) ar gyfer y digwyddiad nesaf ynghyd â dolenn i'r [dudalen werthuso](#). [Cliciwch yma am gopi o'r Llawlyfr Sefydlu](#).

Mentoriaid Sefydlu a Dilyswyr ANG

TREFNIADAU SEFYDLU ANG AR GYFER MENTORIAID SEFYDLU A DILYSWYR SEFYDLU

[Cliciwch yma](#) i wyllo recordiad o'r sesiynau gan Dîm Sefydlu ANG y Consortia a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

[Dilynwch y ddolen i recordiadau a chyflwyniadau PowerPoint cyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad](#).



NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Asesiadau Personol – Diweddariad tymor yr Hydref 2024

[Dilynwch y ddolen hon](#) i weld beth sy'n newydd o fis Medi 2024.

Education Support – Dosbarthiadau Meistr

Mae gan Education Support ystod o ddosbarthiadau meistr rhyngweithiol a chyffrous ar lesiant y gall rheolwyr ac arweinwyr ysgolion eu [harchebu nawr](#). Ariennir y rhain gan Lywodraeth Cymru, heb unrhyw gost i staff. [Manylion llawn ar gael yma](#).

Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni'r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol, a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Gweler y dolenni canlynol i'r [canllawiau](#) a'r [astudiaethau achos](#) cysylltiedig.

Canllawiau Statudol ar Ddysgu 14 i 16

Ddydd Mercher, 18/09/2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y [Canllawiau statudol ar Ddysgu 14 i 16](#) o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Datblygu cefnogaeth ar gyfer y broses o gynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru

Rhagor o fanylion - [Datblygu cefnogaeth ar gyfer y broses o gynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru - Hwb \[gov.wales\]](#)





GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL



[Crynodeb Cynradd gan e-sgol](#)

NEWYDD

Dyma'r diweddaraf o sector Cynradd e-sgol, i gyd am ddim, [gyda mwy o wybodaeth yma](#).



[Digwyddiad dysgu ymarferol i athrawon](#)

NEWYDD

📅 17/02/2025 | 9:30–15:15 📍 PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR 📖 [COFRESTRU](#)

Technolegau datblygol, gan gynnwys profiadau rhyngweithiol 360°, offer a yrrwyd gan AI, a thechnegau sgrin werdd arloesol. Cyfraniad o £200.00 [gan gynnwys TAW] fesul mynychwr tuag at staff cyflenwi [\[gweler yr hysbyseb am fanylion\]](#).

[AI Cyfres Lab Dysgu Ar-lein](#)

Darganfyddwch botensial trawsnewidiol deallusrwydd artifisial mewn addysg gyda thri digwyddiad cyfnos ar-lein gan WCLD, a gynhelir mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol y Cwricwlwm ac Addysgeg [CRN]. Gan ddechrau gyda hanfodion AI, nod y gyfres yw arwain addysgwyr trwy rai o'i chymwysiadau ymarferol i wella ymgysylltiad yn yr ystafell ddosbarth a phersonoli dysgu. Mae rhagor o wybodaeth am bob digwyddiad ar gael trwy ddilyn y [ddolen hon](#).



[Diweddariadau gan y CGA](#)

[Defnyddio'r PDP i'ch cefnogi](#)



[Helpu chi i gyflwyno 'sgiliau achub bywyd' yn y cwricwlwm newydd](#)

A fyddech cystal â sbario ychydig funudau i gwblhau arolwg byr ar ran Achub Bywyd Cymru / GIG Cymru am addysg ac ymwybyddiaeth sgiliau cardio-pwlmonaidd [CPR] mewn ysgolion yng Nghymru. Cliciwch ar y [ddolen](#) hon am ragor o fanylion ac i gwblhau'r arolwg.



[Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025](#)

Cynhelir wythnos Croeso i Dy Bleidlais rhwng 10/03/2025 a 16/03/2025.

[Cofrestrwch nawr i gymryd rhan yn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025](#) i gael adnoddau am ddim i'ch helpu chi i gymryd rhan yn ystod yr wythnos honno.



[Cystadleuaeth Y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd](#)

Bwriad Cystadleuaeth Y Criw Mentrus yw ysbrydoli creadigrwydd plant, eu sgiliau datrys problemau a gweithio mewn tîm a hynny mewn awyrgylch hwyllog. Eleni bydd cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ennill gwobrau ariannol ar gyfer eu hysgol! [Manylion llawn ar gael yma](#).

